

Fframwaith Gweithredu Drafft ar gyfer darpariaeth addysg heblaw yn yr ysgol

Ffurflen ymateb i ymgynghoriad

Eich enw: Rebecca Williams, Swyddog Polisi

Sefydliad (os yw'n berthnasol): UCAC

e-bost/rhif ffôn:

rebecca@ucac.cymru; 01970 639950

Eich cyfeiriad: UCAC, Ffordd Penglais, Aberystwyth
Ceredigion SY23 2EU

Dylid dychwelyd ymatebion erbyn **31/07/17** i:

Cangen Lles Disgyblion
Is-adran Cymorth i Ddysgwyr
Y Gyfarwyddiaeth Addysg
Llywodraeth Cymru.
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

neu gellir cwblhau'r ffurflen yn electronig a'i hanfon i:

e-bost: WellbeingShare@cymru.gsi.gov.uk

Ynghylch yr ymgynghoriad hwn

Diben yr ymgynghoriad hwn yw gofyn am eich barn am ganllawiau anstatudol drafft Llywodraeth Cymru i awdurdodau lleol am addysg ddewisol yn y cartref

Cwestiwn 1 – A ydych yn cytuno â'r bwriad i gyflwyno paneli addysg heblaw yn yr ysgol mewn awdurdodau lleol i oruchwylio a monitro lleoliadau yn y ddarpariaeth honno?

Ydw	<input checked="" type="checkbox"/>	Nac ydw	<input type="checkbox"/>	Ddim yn siŵr	<input type="checkbox"/>
-----	-------------------------------------	---------	--------------------------	--------------	--------------------------

Sylwadau

Cytunwn â'r bwriadau a amlinellir er mwyn sicrhau'r ddarpariaeth fwyaf priodol ar unrhyw adeg o yrfa addysgol plentyn/person ifanc, a hynny mewn modd cyson ledled Cymru.

Cwestiwn 2 – A ydych yn cytuno â'r cynigion i ehangu'r gwasanaethau dysgu, datblygu a chymorth i aelodau pwyllgorau rheoli?

Ydw	<input checked="" type="checkbox"/>	Nac ydw	<input type="checkbox"/>	Ddim yn siŵr	<input type="checkbox"/>
-----	-------------------------------------	---------	--------------------------	--------------	--------------------------

Sylwadau

Cytunwn, ond rhaid bod y lefel o arbenigedd yn gywir o ran y sawl sy'n darparu'r cymorth/cefnogaeth/hyfforddiant; mi fydd yn hollbwysig bod ganddynt hygredd o safbwynt aelodau'r pwyllgorau a bod y cyfraniad yn werthfawr ac yn cael ei weld felly.

Cwestiwn 3 – A ydych yn cytuno â'r bwriad i sefydlu fframweithiau comisiynu awdurdodau lleol i sicrhau ansawdd ac addasrwydd y gwasanaethau heblaw yn yr ysgol a ddefnyddir?

Ydw	<input checked="" type="checkbox"/>	Nac ydw	<input type="checkbox"/>	Ddim yn siŵr	<input type="checkbox"/>
-----	-------------------------------------	---------	--------------------------	--------------	--------------------------

Sylwadau

Mae'r cynnig yn un rhesymol.

Cytunwn yn ogystal â'r dimensiwn rhanbarthol, er mwyn sicrhau cysondeb, atal dyblygiad a delio'n fwy effeithiol â sefyllfaoedd trawsffiniol.

I fynd un cam ymhellach, awgrymwn fod templed cenedlaethol yn cael ei greu ar gyfer y fframweithiau comisiynu er mwyn cynyddu ymhellach y cysondeb a lleihau ymhellach unrhyw ddyblygu ymdrechion. Mi allai templed o'r fath gael ei gynnwys yn y canllawiau anstatudol y cyfeirir atynt yn Atodiad 1, er mwyn ei gyflwyno'n gynnar yn y broses, cyn bod Awdurdodau Lleol wedi mynd ati i ddechrau ar y gwaith yn unigol.

Cwestiwn 4 – A ydych yn cytuno â'r bwriad i safoni polisiau a gweithdrefnau cofrestru a chasglu data?

Ydw	<input checked="" type="checkbox"/>	Nac ydw	<input type="checkbox"/>	Ddim yn siŵr	<input type="checkbox"/>
-----	-------------------------------------	---------	--------------------------	--------------	--------------------------

Sylwadau

Cytunwn mewn egwyddor. Fodd bynnag, nid yw'r cysylltiad rhwng arferion cofrestru disgyblion a sefydlu'r arferion gorau o ran atebolrwydd a chanlyniadau'n gwbl glir o'r ddogfen ymgynghorol.

Nid ydym wedi ein darbwyllo fod y broses o gofrestru a dadgofrestru Unedau Cyfeirio Disgyblion yn perthyn dan y pennawd Data a Gwybodaeth (yn Atodiad 1).

Cwestiwn 5 – A ydych yn cytuno â'r bwriad i atal datgymhwysu'r cwricwlwm ar draws sefydliad cyfan mewn addysg heblaw yn yr ysgol, gan gynnwys mewn unedau cyfeirio disgyblion?

Ydw	<input checked="" type="checkbox"/>	Nac ydw	<input type="checkbox"/>	Ddim yn siŵr	<input type="checkbox"/>
-----	-------------------------------------	---------	--------------------------	--------------	--------------------------

Sylwadau

Cytunwn â'r cynnig.

Awgrymw'n fod yr eitem olaf dan y pennawd 'Dyfodol Llwyddiannus' yn Atodiad 1 (mesur canlyniadau 'meddal', datblygu fframwaith meincnodi) yn perthyn yn well dan y pennawd blaenorol 'Data a gwybodaeth.'

Cwestiwn 6 – Hoffem wybod eich barn ar yr effeithiau y byddai'r Fframwaith Gweithredu ar gyfer darpariaeth addysg heblaw yn yr ysgol yn eu cael ar yr iaith Gymraeg, yn benodol ar:

- i) gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg
- ii) peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Pa effeithiau fydd y safonau newydd yn eu cael yn eich barn chi? Sut mae cynyddu effeithiau cadarnhaol neu liniaru effeithiau negyddol?

Sylwadau ategol

Nid oes unrhyw beth yn y ddogfen ymgynghorol yn awgrymu y bydd unrhyw newid o safbwynt y Gymraeg.

Cwestiwn 7 – Eglurwch hefyd sut gellid ffurfio neu newid y safonau arfaethedig:

- i) fel eu bod yn cael effeithiau cadarnhaol neu fwy o effeithiau cadarnhaol ar gyfleoedd pobl i ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg
- ii) fel nad ydynt yn cael effeithiau andwyol ar gyfleoedd pobl i ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Sylwadau ategol

Gellid ystyried gwneud darpariaeth gyfrwng Cymraeg yn un o'r meysydd i'w hystyried gan y Paneli Addysg/Mynediad arfaethedig, hynny yw, sicrhau fod darpariaeth addysg heblaw yn yr ysgol briodol ar gael yn y Gymraeg.

Mi ddylai'r Gymraeg fod yn ystyriaeth yn ogystal wrth lunio'r Fframweithiau Comisiynu, h.y. sicrhau fod y Gymraeg yn rhan o'r

diffiniad o ‘ansawdd ac addasrwydd’ disgwylidig ar gyfer darparwyr allanol sy’n cynnig gwasanaethau heblaw yn yr ysgol.

Yn ogystal, wrth edrych ar weithdrefnau cofrestru a chasglu data, dylai sgiliau, gofynion a dymuniadau o ran y Gymraeg fod yn elfen i’w chofnodi.

Cwestiwn 8 – Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol. Os oes gennych faterion perthnasol nad ydym wedi rhoi sylw penodol iddynt, defnyddiwch y blwch isod i roi gwybod inni amdanynt:

Sylwadau:

Mae UCAC yn cydweld â’r broses ‘fesul cam’ er mwyn sicrhau fod y camau a gymerir yn gadarn ac yn effeithiol, ac i roi amser i’r system ymdopi â’r newid.

Fodd bynnag, ni roddir unrhyw amcan o ystyr ‘tymor byr/canol/hir’ ac ni fyddem am i’r broses lusgo’n ormodol; mae gwendidau’r system wedi’u hadnabod ers cryn amser, ac ni ddylem adael i fwy nag sy’n wirioneddol angenrheidiol o ddysgwyr basio drwy system sydd wedi derbyn beirniadaeth o gymaint o gyfeiriadau.

Mae ymatebion i ymgynghoriadau’n debygol o gael eu gwneud yn gyhoeddus, ar y rhyngrwyd neu mewn adroddiad. Os byddai’n well gennych i’ch ymateb aros yn ddiennw, ticiwch yma:

